
# Edmund Jones, yr Hen Broffwyd

## (1702 – 1793)


A

GEOGRAPHICAL,

HISTORICAL, AND

RELIGIOUS

ACCOUNT

OF THE

PARISH

OF

*ABERYSTRUTH:*

IN THE

*COUNTY OF MONMOUTH.*

To which are added,

*MEMOIRS*

OF SEVERAL PERSONS OF NOTE,

WHO LIVED IN THE SAID

*PARISH.*

By EDMUND JONES.

TREVECKA. Printed in the Year 1779.

Ganwyd Edmund Jones ar 1 Ebrill, 1702, ym Mhenllwyn, plwyf Aberystruth, Blaenau Gwent, yn fab i John a Catherine Lewis (yr oedd dyddiad ei eni'n destun sbort i lawer o'i ddilornwyr). Yn ôl y *Bywgraffiadur* roedd Penllwyn yn dyddyn a leolwyd 'yn ymyl gorsaf ffordd haearn Nant-y-glo (yn awr)'. Roedd ei rieni yn aelodau yn eglwys Annibynnol Penmain, Mynydd Islwyn (a sefydlwyd yn fuan ar ôl sefydlu eglwys Llanfaches). Bu'n ddisgybl mewn ysgol a godwyd gan Howel Prosser, curad Aberystruth. Roedd hwnnw'n ramadegydd da a ddysgodd iddo ddarllen ac ysgrifennu Saesneg. Ni chafodd unrhyw ysgol arall. Symudodd y teulu i Ben-y-cae yn nyffryn Ebwy Fawr yn 1710 ac yno y bu fyw tan 1739. Dechreuodd bregethu pan oedd yn ddwy ar hugain oed. Ar ôl iddo bregethu am ddeng mlynedd, cafodd ei urddo yn weinidog cynorthwyol ym Mhenmain yn 1734.

Dechreuodd y Bedyddiwr Miles Harri (gweinidog Pen-y-garn, Pont-y-pŵl, o 1732 ymlaen) bregethu tua'r un amser ag Edmund Jones ac fe gododd dadl gyhoeddus digon chwerw rhyngddynt. Roedd Harri o blaid bedydd y crediniol trwy drochiad tra bod Jones yn cefnogi bedydd plant trwy daenelliad. Bu'n rhaid galw cyfarfod i sicrhau heddwch rhyngddynt. Daeth nifer o weinidogion ynghyd ym Merthyr Tudful yn 1728 a llwyddwyd i gael rhyw fath o gytundeb a chymodi rhyngddynt.

Mae lle i amau nad oedd gan Dafydd Williams, gweinidog Penmain lawer o olwg ar Edmund Jones. Serch hynny, roedd Jones yn disgwyl, yn naturiol ddigon, cael bod yn olynydd iddo. Fe'i siomwyd pan ddewiswyd Philip Davies, gŵr a oedd dipyn yn iau nag ef. Yn dilyn y siom symudodd, ym mis Gorffennaf 1740, i'r Transh yn ymyl Pont-y-pŵl, lle adeiladodd dŷ cwrdd Annibynnol ar ei gost ei hun. Yn ôl tystiolaeth George Whitefield, bu'n rhaid iddo werthu ei lyfrau am £15 er mwyn cwblhau'r gwaith. Roedd y gynulleidfa'n ddigon tlawd a bu'n rhaid i Edmund Jones a'i wraig fyw'n gynnil iawn (dywedir mai £10 y flwyddyn oedd ei gyflog). Yn ôl pob hanes, nid yn unig gwnaent hynny'n ddirwgnach ond roedd yn enwog am ei haelioni tuag at rai a oedd yn dlotach nag ef ei hun. Gwyddys iddo roi ei gôt uchaf ar un amgylchiad, a'i grys ar amgylchiad arall, i bobl dlawd a gyfarfu ar ei deithiau.

Nid oes sicrwydd pryd y priododd Jones ond dywedir i'w ddedwyddwch amlwg wneud cymaint o argraff ar George Whitefield pan ymwelodd â hwynt yn 1749 nes i hwnnw benderfynu priodi Mrs James o'r Fenni. Er mawr siom iddo, darganfyddodd, yn rhy hwyr, 'nad Mrs Jones oedd Mrs James'. Yn anffodus, nid yw'r stori hon yn gywir gan fod Whitefield wedi priodi yn Nhachwedd, 1741.

Pan ddechreuodd Howel Harris sefydlu cymdeithasau crefyddol mewn tai annedd, o gylch y flwyddyn 1736-7, mae'n debyg fod rhai o'r hen Ymneilltuwyr yn credu ei fod am droi yn Annibynnwr. Preswadiodd Jones ef i ddod i bregethu i Sir Fynwy am y tro cyntaf yn 1738 (er mawr ddicter y person lleol) a chafodd lawer o ddylanwad. Bwriad Harris, wrth gwrs, oedd diwygio'r Eglwys Sefydledig o'r tu mewn. Pan sylweddolodd Jones hyn, ofnodd y byddai llawer o'r Annibynwyr yn cael eu denu i'r Eglwys, yn dilyn llwyddiant Methodistiaeth, fel y gobeithiai Harris. O'r herwydd awgrymodd Jones y dylai rhai seiadau eu ffurfio'u hunain yn Eglwysi Annibynnol. Digwyddodd hynny yn Nefynnog ac yng Nghastell Nedd. Nid yw'n syndod fod y cyfeillgarwch rhwng Jones a Harris wedi oeri yn fuan ar ôl hyn.

Yr oedd duwioldeb Jones, a'i sêl dros efengyleiddio, yn cael eu hedmygu gan Whitefield a'r arglwyddes Huntingdon ac yr oedd croeso iddo bob amser yng ngolwg yr arglwyddes yn Nhrefeca. Pan oedd yno, roedd yn pregethu ddwy waith y dydd iddi hi ac i'r myfyrwyr. Yn ôl Ieuan Gwynedd, hi sy'n adrodd yr hanes canlynol am y ffordd y digiodd wrth Williams, Pantycelyn:

*'Dywed Mr William Williams, yr offeiriad Methodistaidd, nad oedd nac offeiriad na gweinidog yn effro pan ddechreuodd Mr. Howel Harris gynghori. Dyma anwiredd cywilyddus i'w argraffu, oblegid yr oedd rhai offeiriaid yn effro o'i flaen, megis Mr. Griffith Jones, Mr. Thomas Jones, Cwm Iau ac amryw eraill, a llawer o weinidogion ymneilltuol, megis Mr. John Thomas, swydd Gaernarfon; Mr. Williams o Dredwstan, swydd Frycheiniog; Mr. Morgan o Lanafan fawr; Mr. Vavasor Griffiths, swydd Faesyfed; Mr. Palmer, Henllan; Mr. William Maurice a Mr. Philip Pugh, yn swydd Aberteifi. Buasai James Davies hefyd yn fywiog ym Merthyr Tudful, a myfi fy hun ym Mynwy a ddygodd Mr. Howel Harris yno i gynghori yn yr argyhoeddiad a'r diwygiad. Mae'n rhyfedd fod y dyn hwn yn dweud pethau fel yma, ac yntau wedi ei eni a'i fagu ym mysg Ymneilltuwyr. Os na rydd y Methodistiaid eu hymffrost heibio, bydd Duw'n eu gadael bob yn dipyn, ac yna hwy a ddeuant yn weiniaid lled ddiddefnydd.'*

Teithiodd lawer i bregethu yng Nghymru ac yn Lloegr. Cerddai i bob man – 400 milltir yn 1782 yng Ngogledd Cymru, gan bregethu ddwywaith y dydd; hyd yn oed yn 1789, pan oedd yn 87 oed, pregethodd 405 o weithiau. Serch hynny nid oedd yn cael ei ystyried yn bregethwr poblogaidd.

Cadwodd Jones ddyddiaduron manwl, yn Saesneg, yn cofnodi ei holl ymdrechion ond, pan etifeddwyd ei bapurau gan ei nai, ni welodd hwnnw unrhyw werth ynddynt ac fe'u gwerthwyd i siopwr ym Mhont-y-pŵl i bacio nwyddau. Yn ffodus llwyddwyd i arbed llawer ohonynt. Ni chyll gyfle yn ei ddyddiaduron i ymosod ar ei wrthwynebwyr diwinyddol. Er enghraifft, yn 1770, mae'n nodi *'David Williams, son of W.D. of Llwyn y Barcud, minister of the Arian meeting at Exeter, being hail fellow with some officers of the Welsh Militia there, got drunk among them and he wrote a letter as is thought by some to Morgan of Liscard in Cornwall, a fellow student at Carmarthen, a very atheistic letter owning that he did not believe what he himself delivered unto others… David Williams's excuse was that he wrote it in drink; a pretty excuse for a minister at the cost of the word!'*

Cafodd Jones yr enw o fod yn broffwyd oherwydd ei ddawn honedig i ragfynegi'r dyfodol, ac yn enwedig i ragfynegi'r tywydd. Adroddir llu o enghreifftiau o hyn ac un o'r enwocaf yw'r hyn a ddigwyddodd yn 1769. Yn nechrau Awst cafodd wahoddiad gan ei gyfaill y Parch. Lewis Hopkins i ymweld â Bromyard yn sir Henffordd ar y pumed o Fedi pan oedd hwnnw'n cael ei ordeinio. Atebodd Jones fis ymlaen llaw na fyddai modd iddo ddod am y byddai glaw mawr ar Fedi'r pedwerydd ac felly ni fyddai'n bosibl iddo deithio. Pan ddaeth y pedwerydd fe ddaeth y glaw ac roedd pawb a deithiai yno yn wlyb hyd at eu croen. Pan ddarllenwyd llythyr Jones i'r gynulleidfa roedd ei frodyr gwlyb yn rhyfeddu ac yn genfigennus o'i ddoniau. Cafwyd digon o enghreifftiau tebyg ac aed i'w ystyried yn dipyn o oracl ar bob math o bynciau. Dywedir, er enghraifft, fod aml i ŵr ieuanc wedi mynnu ymgynghori ag ef cyn penderfynu'n derfynol ar ei ddewis o wraig. Roedd ambell broffwydoliaeth yn hunan-gyflawnol, megis ei ddewis o enw ar y capel a gododd yn y Transh, sef Ebenezer, a hynny am y credai mai Ebenezer fyddai enw'r gweinidog nesaf. Ar ôl ei ddydd ef gwrthododd yr eglwys roi galwad i'r Dr Phillips o'r Neuadd-lwyd. Yn hytrach dewiswyd gweinidog o'r enw Ebenezer Jones, o blwyf Llanfair-ar-y-bryn, sir Gaerfyrddin, a oedd, ar y pryd, yn fyfyriwr ifanc yn Abertawe.

Soniwyd hyd yn hyn am y nodweddion a wnaeth Edmund Jones yn enwog trwy Gymru yn ei ddydd; sef ei Galfiniaeth, ei sêl efengylaidd a'i ynni, ei haelioni tuag at dlodion er gwaethaf ei dlodi ef ei hun, a'i ddoniau proffwydol. Erbyn hyn mae ei enwogrwydd yn bennaf seiliedig ar ddau lyfr o'i waith. Y cyntaf a'r enwocaf yw ei lyfr am ysbrydion sef *'A Relation of Apparitions of Spirits in the County of Monmouth and the Principality of Wales'* a